



**Ras Siôn Corn yr Wyddgrug
Dydd Sul 8^{eg} Rhagfyr 2019
Amser dechrau'r ras 11.00yb o Sgwâr Daniel Owen, Ffordd yr Iarll, Yr
Wyddgrug**

Cyngor Tref yr Wyddgrug yw trefnyddion a hyrwyddwyr Ras Siôn Corn yr Wyddgrug. Manylion cysylltu yw Cyngor Tref yr Wyddgrug, Neuadd y Dref, Ffordd yr Iarll, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1AB, ffôn 01352 758532 e-bost: events@moldtowncouncil.org.uk

Achlysur Ras Siôn Corn Cyngor Tref yr Wyddgrug – Telerau ac Amodau

Trwy gynnig yn achlysur Ras Siôn Corn Cyngor Tref yr Wyddgrug rydych yn cytuno i gadw at yr Amodau Cynnig hyn ac unrhyw gyfarwyddiadau rasio a gewch gan drefnyddion a swyddogion yr achlysur.

Tâl Cystadlu: Nid oes modd ad-dalu'r tâl cystadlu ar ôl ei dderbyn. Ni all yr achlysur ystyried amgylchiadau personol na cheisiadau am ad-daliad. Ni fydd trosglwyddo lle i redwr arall yn cael ei ystyried. Nid oes modd gohirio cynigion o un flwyddyn i'r llall.

Triniaeth feddygol wrth fynychu'r achlysur.

Trwy gynnig yn yr achlysur rydych yn cadarnhau, os bydd arnoch angen triniaeth feddygol heblaw mewn argyfwng yn ystod eich cyfranogiad, y bydd yn cael ei weinyddu gan wirfoddolwyr Urdd Sant Ioan.

Gwarchod data.

Ni fydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn defnyddio manylion personol sy'n cael eu casglu gan Gyngor Tref yr Wyddgrug fel rhan o'r drefn gynnig heblaw mewn cysylltiad â'r achlysur ac achlysuron y dyfodol i'w trefnu gan Gyngor Tref yr Wyddgrug ac ar gyfer anfon newyddion cysylltiedig â Chyngor y Dref. Ni fydd gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo i neb arall, ac eithrio unrhyw wybodaeth feddygol a roddwyd gennych a all fod yn angenrheidiol ar y diwrnod er eich lles eich hun.

Gwisg Siôn Corn / Dillad Rasio

Bydd holl gyfranogwyr 12 oed a hŷn yn cael cynnig Gwisg Siôn Corn un maint yn unig (maint oedolyn). Os bydd angen, fe all cyfranogwyr aeddfed wisgo'u Gwisg Siôn Corn eu hunain ac fe all plant (dan 16 oed) wisgo gwisg arall, ond rhaid i holl ddillad rasio gyd-fynd â thema'r ŵyl. Ni fydd gostyngiad yn y tâl cystadlu i gyfranogwyr sy'n gwisgo'u gwisgoedd eu hunain.

Gwrthod caniatâd i rasio

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddoethineb ei hun yn llwyr, i wrthod caniatáu unrhyw gyfranogiad a allai beri tramgwydd neu anaf i'r cyfranogwr, cyfranogwyr eraill neu wylwyr. Mae hyn yn cynnwys gwisgo unrhyw ddillad neu negeseuon gweledol a allai beri tramgwydd i eraill. Bydd peidio â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd swyddogion yr achlysur yn peri troi allan o'r ras a phosibilrwydd ymyriad Heddlu Gogledd Cymru.

Beiciau, ystudfachau, esgidiau rholio a thaclau tebyg

Dosbarthwyd yr achlysur fel ras draed (heblaw am gystadleuwyr a ganiateir mewn cadeiriau olwynion) ac, fel y cyfryw, nid oes hawl defnyddio unrhyw un o'r taclau uchod. Mae pawb sy'n ceisio defnyddio unrhyw un o'r uchod yn debygol o gael eu gwahardd o'r ras.

Cŵn

Ac eithrio cŵn cymorth, nid yw cŵn yn cael ymuno â chyfranogwyr yn y ras.



Dŵr a chael gwared ar sbwriel

Bydd dŵr yn cael ei ddarparu mewn mannau penodol ar gyfer holl gyfranogwyr yn y ras. Rhaid i holl gyfranogwyr gael gwared ar boteli dŵr ac unrhyw sbwriel arall yn y biniau sy'n cael eu darparu yn hytrach na'u taflu ar y llawr.

Canslo'r achlysur

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn cadw'r hawl, yn ôl ei ddoethineb ei hun yn llwyr, i ganslo, oedi neu ohirio'r achlysur oherwydd amgylchiadau annisgwyl oddi allan i reolaeth resymol Cyngor Tref yr Wyddgrug.

Mewn achosion o'r fath bydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn ymdrechu i hysbysu cyfranogwyr o'r sefyllfa mor fuan ag y bo modd. Os bydd yr achlysur yn cael ei ganslo, ei oedi neu ei ohirio oherwydd amgylchiadau oddi allan i reolaeth resymol Cyngor Tref yr Wyddgrug (gan gynnwys, er mwyn osgoi amheuaeth, oherwydd tywydd garw neu o ganlyniad i gyfarwyddyd y Gwasanaethau Brys) ni fydd Cyngor Tref yr Wyddgrug yn atebol am unrhyw anhwylostod, treuliau, costau, colledion neu iawndal sy'n cael ei ddioddef gan gyfranogwyr. Nid oes modd ad-dalu'r tâl mynediad ac mae'n rhan o ymrwymiad y trefnyddion i'r Bydd yr holl dderbyniadau o'r tâl mynediad yn mynd at Apêl y Maer i Godi Arian.

Pan fo'r achlysur yn gorfod cael ei ganslo, ei oedi neu ei ohirio oherwydd amgylchiadau oedd o fewn rheolaeth resymol Cyngor Tref yr Wyddgrug, bydd yr atebolrwydd llawn yn gyfyngedig i'r tâl mynediad a dalwyd i gymryd rhan.

Dyfeisiau Cerddoriaeth

Am resymau lechyd a Diogelwch rhaid i chi beidio â chymryd rhan a defnyddio unrhyw ddyfeisiau gwranddo ar adloniant personol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn i'r Gwasanaethau Brys a'u cerbydau allu gweithredu'n ddiogel yn, ar ac o gwmpas y cwrs. O ganlyniad, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'ch amgylchoedd uniongyrchol bob amser.

Ymwadiad.

Cymryd rhan yn achlysur Ras Siôn Corn Cyngor Tref yr Wyddgrug.

Trwy gymryd rhan yn yr achlysur rydych yn derbyn mai chi sy'n gyfrifol am unrhyw anaf neu ddamwain all ddigwydd tra byddwch yn hyfforddi ar gyfer, teithio i neu o'r digwyddiad, cymryd rhan yn neu yn ystod y digwyddiad, heblaw i'r graddau bod unrhyw ddamwain neu anaf yn cael ei achosi trwy esgeulustod y trefnydd.

Rydych yn cymryd rhan yn yr achlysur ar eich cyfrifoldeb eich hun yn llwyr a, thrwy gynnig yn yr achlysur, mae cyfranogwyr yn cydnabod NAD yw Cyngor Tref yr Wyddgrug yn atebol am anaf, colled, marwolaeth neu niwed sy'n deillio o gymryd rhan yn yr achlysur heblaw i'r graddau y mae'n cael ei achosi trwy esgeulustod Cyngor Tref yr Wyddgrug. Cyfrifoldeb cyfranogwyr yn y Ras Siôn Corn yw cael cyngor meddygol priodol cyn cymryd rhan.

Iechyd a ffitrwydd personol

Rydych yn deall y gallai cymryd rhan yn yr achlysur hwn fod yn beryglus ac ni ddylech gymryd rhan heb hyfforddiant priodol a gallu cwblhau'r pellter llawn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn feddygol ffit ac yn gallu rhedeg neu gerdded a gynigiwch.

Defnyddio ffotograffau a/neu fideo

Mae Cyngor Tref yr Wyddgrug yn tybio y rhoddwyd caniatâd goblygedig i ddefnyddio unrhyw ffotograff neu fideo sy'n cael eu cymryd / neu gyflwyno cyn ac yn ystod yr achlysur a bod modd iddynt gael eu defnyddio at ddibenion cyhoeddusrwydd, y wasg neu gyfryngau cymdeithasol, oni bai y nodwyd yn bendant i'r gwrthwyneb ar y pryd.